**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Deddf Caffael 2023 (Cytundebau Rhyngwladol Penodedig) (Diwygio) (Cymru) 2026**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gyfarwyddiaeth Caffael a Masnachol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cytundebau Rhyngwladol Penodedig) (Diwygio) (Cymru) 2026. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Mark Drakeford AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**10 Chwefror 2026**

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Deddf Caffael 2023 (“Deddf 2023”) yn cynnwys pwerau gwneud rheoliadau ar gyfer Gweinidogion Cymru mewn perthynas â Chaffael Cyhoeddus Cymru.

1.2 Bydd Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cytundebau Rhyngwladol Penodedig) (Diwygio) (Cymru) 2026 (“y Rheoliadau”) yn cael eu gwneud gan ddefnyddio Gweithdrefn Gymeradwyo’r Senedd gan ddefnyddio pwerau a roddwyd gan Ddeddf Caffael 2023 i weithredu pennod gaffael o gytundeb rhyngwladol newydd, sef y Cytundeb Economaidd a Masnach Cynhwysfawr rhwng Llywodraeth Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Gweriniaeth India (“CETA y DU-India”) (a lofnodwyd yn Swydd Buckingham ar 24 Gorffennaf 2025.

1.3 Mae Atodlen 9 i Ddeddf 2023 yn rhestru cytundebau rhyngwladol y mae’r DU wedi'u llofnodi ac sy’n cynnwys rhwymedigaethau caffael y mae rhaid rhoi effaith iddynt yn y DU.

1.4 Mae rheoliad 1 o'r Rheoliadau yn rhoi'r teitl, pryd y daw'r Rheoliadau i rym a manylion “dehongli”.

1.5 Mae rheoliad 2 o’r Rheoliadau yn diwygio Atodlen 9 i Ddeddf 2023 i roi effaith i CETA y DU-India mewn perthynas â chaffael ar gyfer Awdurdodau Contractio Cymru (“ACCau”).

1.6 Mae rheoliad 3 o’r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau trosiannol, fel na fydd y Rheoliadau hyn yn effeithio ar unrhyw gaffaeliad sy’n ymwneud â’r cytundebau ag India yr ymrwymwyd iddynt gan y Deyrnas Unedig, os bydd y caffaeliad yn dechrau cyn y diwrnod y daw’r cytundeb perthnasol i rym.

1.7 Mae rheoliad 4 o’r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiad i reoliad 4(1) o Reoliadau Deddf Caffael 2023 (Cytundebau Rhyngwladol Penodedig) (Diwygio) 2025 drwy fewnosod diffiniad i’r ddarpariaeth.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 89(3)(a) a 122(3)(b) a (d) o Ddeddf Caffael 2023.

3.2 Yn unol â darpariaethau adran 122(10)(i) o Ddeddf 2023, bydd Gweithdrefn Gymeradwyo'r Senedd yn gymwys i Reoliadau a wneir o dan adrannau 89(3)(a) i Ddeddf Caffael 2023 sy'n diweddaru Atodlen 9 i Ddeddf Caffael 2023.

3.3 Yn ogystal, mae Gweinidogion Cymru wedi cydsynio i Lywodraeth y Deyrnas Unedig osod a gwneud offeryn cysylltiedig, sef "Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cytundebau Rhyngwladol Penodedig a Darpariaeth Arbed) (Diwygio) 2026".

3.4 Mae'r rhan fwyaf o'r Offeryn Statudol hwn gan y DU (UKSI) yn rhoi effaith i CETA y DU-India ac nid oes angen cydsyniad Gweinidogion Cymru ar eu cyfer. Mae'r ddogfen hon yn cyfeirio at y rheoliadau sy'n cael eu gosod a'u gwneud gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Gweithredu CETA y DU-India mewn perthynas â chontractau yr ymrwymir iddynt o dan Ddeddf Caffael 2023.

3.5 Er hynny, mae elfen fach o'r UKSI sy'n ymwneud â darpariaethau trosiannol ac arbed ac yn diwygio UKSI cyfredol o'r enw Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2024. Mae'r elfen hon yn gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae'n ofynnol i'r Rheoliadau sicrhau bod penodau caffael CETA y DU-India yn cael eu gweithredu yng Nghymru, fel sy'n ofynnol gan rwymedigaethau rhyngwladol y DU. Mae'r diwygiadau i Atodlen 9 yn sicrhau bod cyflenwyr o India yn cael eu trin yn unol â'r cytundebau.

4.2 Mae'r Rheoliadau hefyd yn cyflwyno diwygiad i Reoliad 4(1) o Reoliadau Deddf Caffael 2023 (Cytundebau Rhyngwladol Penodedig) (Diwygio) 2025 drwy fewnosod diffiniad i'r ddarpariaeth.

## 5. Sut bydd yr is-ddeddfwriaeth yn gwella'r sefyllfa bresennol

5.1 Bydd y Rheoliadau yn sicrhau bod y darpariaethau caffael cyhoeddus sydd wedi'u cynnwys ym mhennod caffael gan lywodraethau CETA y DU-India yn cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol y DU.

5.2 Byddant yn rhoi sicrwydd cyfreithiol i ACCau a chyflenwyr ynghylch rhoi'r cytundebau newydd ar waith.

5.3 Fel y'u drafftiwyd, ni fydd y Rheoliadau'n eu cymhwyso i gaffaeliadau sy'n mynd rhagddynt.

5.4 Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau trosiannol, fel na fydd y Rheoliadau hyn yn effeithio ar unrhyw

gaffaeliad sy’n ymwneud â CETA y DU-India yr ymrwymwyd iddo gan y Deyrnas Unedig, os bydd y caffaeliad yn dechrau cyn y diwrnod y daw’r cytundeb perthnasol i rym.

## 6. Sut y mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi sectorau i weithredu'n fwy effeithlon?

6.1 Drwy ddiwygio Atodlen 9 i adlewyrchu cytundeb rhyngwladol newydd y DU, mae'r Rheoliadau yn rhoi eglurder a sicrwydd i awdurdodau contractio a chyflenwyr, gan gefnogi prosesau caffael effeithlon a chyfreithlon.

## 7. A fydd y ddeddfwriaeth yn gwella mynediad neu ganlyniadau ar gyfer rhannau o gymdeithas sydd o dan anfantais neu sydd wedi'u hallgáu

7.1 Bydd y Rheoliadau a Deddf 2023, ochr yn ochr â Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 (“SPPP”) a Deddf Caffael Gwasanaethau Iechyd (Cymru) 2024 (“HSP”), i gyd yn cyd-fynd â'i gilydd i ddarparu fframwaith caffael effeithiol yng Nghymru.

7.2 Ochr yn ochr â Datganiad Polisi Caffael Cymru (“WPPS”) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (“WBFGA”), bydd hyn yn sicrhau bod sector cyhoeddus Cymru yn defnyddio caffael fel erfyn effeithiol i sicrhau canlyniadau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol, gan gynnwys gwaith teg.

7.3 Mae'r darpariaethau a geir yn y Rheoliadau yn dechnegol eu natur ac yn ymwneud â gweithredu rhwymedigaeth gaffael ryngwladol. Nid ydynt yn effeithio'n uniongyrchol ar fynediad na chanlyniadau i grwpiau difreintiedig neu wedi'u hallgáu.

7.4 Er nad yw Rheoliadau a Deddf 2023 gysylltiedig yn gwneud unrhyw gyfeiriad uniongyrchol arall at unrhyw nodweddion gwarchodedig, dylai ACCau ystyried sut y gallant ddefnyddio caffael cyhoeddus i sicrhau canlyniadau ychwanegol drwy gaffael, gan wneud yn fawr o gyfleoedd i ddarparu lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

7.5 Nid yw'r Rheoliadau na Deddf 2023 gysylltiedig yn rhoi rhai pobl na grwpiau o dan fwy o anfantais nag eraill. Ni nodwyd unrhyw effeithiau neu rwystrau negyddol uniongyrchol nac anuniongyrchol i bobl â nodweddion gwarchodedig.

## 8. Ymgynghori

8.1 Gan fod y Rheoliadau hyn yn ddiwygiadau technegol i weithredu rhwymedigaethau rhyngwladol, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol

wedi'i gynnal.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 9. Cyflwyniad

9.1 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (“RIA”) hwn yn asesu effeithiau posibl y Rheoliadau sy'n cael eu cynnig, sef “Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cytundebau Rhyngwladol Penodedig) (Diwygio) (Cymru) 2026”. Mae’r asesiad yn ystyried dau opsiwn: Busnes fel arfer (gwneud dim) a gwneud is-ddeddfwriaeth.

9.2 Nod yr RIA yw nodi unrhyw gostau pontio ychwanegol i Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Contractio Cymru , neu ddarpar fidwyr, yn ogystal ag unrhyw gostau parhaus sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Rheoliadau arfaethedig.

### Opsiynau a ystyriwyd

### 10. Opsiwn 1: Busnes fel Arfer – Gwneud dim

10.1 Byddai gwneud dim yn golygu na fyddai'r rhwymedigaethau caffael sy'n deillio o CETA y DU-India yn cael eu gweithredu yng Nghymru, gan arwain at beidio â chydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol y DU.

10.2 Gallai peidio â gweithredu rhwymedigaethau caffael beryglu gallu'r DU i gydymffurfio â'r darpariaethau a gynhwysir yn CETA y DU-India, gan arwain o bosibl at anghydfodau neu sancsiynau ar lefel ryngwladol. Byddai Cymru, fel rhan o'r DU, yn gysylltiedig ag unrhyw achos o'r fath o dorri amodau.

10.3 Yn ogystal, gallai’r dull hwn beri dryswch i ACCau a bod yn anghyson â'r ffordd y gwneir pethau gan Weinidog y Goron ac adran Gogledd Iwerddon lle deuir â Rheoliadau i rym ar y mater hwn.

### 11. Opsiwn 2: Gwneud Is-ddeddfwriaeth

11.1 Mae'r opsiwn hwn yn gweithredu'r Rhwymedigaethau Rhyngwladol sydd wedi'u cynnwys yn CETA y DU-India.

11.2 Mae'r Rheoliadau yn dechnegol ac nid ydynt yn gosod costau ychwanegol ar awdurdodau contractio na chyflenwyr.

11.3 Y fantais yw sicrwydd cyfreithiol a chydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol y DU.

11.4 Mae darpariaethau trosiannol yn sicrhau na effeithir ar gaffaeliadau sy'n mynd rhagddynt, gan leihau aflonyddwch.

11.5 Byddai'n sicrhau cydraddoldeb i Awdurdodau Contractio yng Nghymru a Lloegr.

## 12. Costau a manteision - Opsiwn 1: Gwneud dim

12.1 Dyma'r opsiwn sylfaenol ac felly, ni fydd unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

12.2 Ni nodwyd unrhyw fanteision eraill.

## 13 Costau a manteision - Opsiwn 2: Gwneud Is-ddeddfwriaeth

13.1 Mae'r Rheoliadau yn gweithredu'r rhwymedigaethau rhyngwladol y cytunwyd arnynt ac a gynhwysir yn CETA y DU-India. Nid yw'r rhwymedigaethau hyn, a grëwyd gan y darpariaethau caffael gan lywodraethau, yn mynd y tu hwnt i'r rhai wedi'u cynnwys mewn cytundebau masnach presennol, heblaw bod yn berthnasol yn benodol i'r wlad a nodir ac nid oes unrhyw ddiwygiadau pellach yn cael eu cyflwyno. Felly, ni ragwelir y byddant yn creu unrhyw gostau ychwanegol.

13.2 Mantais opsiwn 2 yw sicrwydd cyfreithiol, cydraddoldeb a chydymffurfiaeth â Rhwymedigaethau Rhyngwladol y DU. Gall fod potensial trwy'r Cytundebau Masnach i gael at gronfa fwy o gyflenwyr, gan gynnwys y rhai o'r gwledydd sy'n dod o dan y cytundebau hyn. Gall cytundebau masnach gynnwys sy'n golygu y gall busnesau Cymru elwa ar gael at farchnad gaffael y partïon eraill, ac i'r gwrthwyneb.

13.3 Am y rhesymau hyn, opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.